BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF PUBLIC SERVICES BOARD

# Cymunedol (Diogelwch/Cydlyniant Cymunedol)

Pen-y-bont ar Ogwr Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bridgend Public Services Board

'Y peth gorau am fyw yn yr ardal yw'r ymdeimlad o gymuned a'r bobl'

Fe wnaethom ni ganfod

## Mae ein cymunedau'n gryf

- 'Mae cymunedau llai, clos yn dueddol o ofalu am ei gilydd ac o gynnig rhwydweithiau cymorth.'
- Yn ystod y llifogydd yn 2020 a thrwy gydol Covid-19 mae ein cymunedau gwydn wedi dod at ei gilydd i helpu ei gilydd.
- Mae gwirfoddolwyr wedi gwneud gwahaniaeth mawr yn ystod y pandemig.
- Yn ystod y pandemig, cafodd £1.8 miliwn o daliadau cymorth brys a thaliadau cymorth unigol eu gwneud yn yr ardal hon.

Fe wnaethom ni ganfod

## Mae bron i 450,000 o bobl yn byw ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr a RhCT

- Rhagwelir y bydd nifer y bobl yma yn is dros yr 20 mlynedd nesaf.
- Yn y dyfodol mae disgwyl llai o bobl ifanc (0-15 oed) yn ein hardal tra bydd mwy o bobl 65+ oed. Mae hyn yn golygu y gallai fod angen i fwy o bobl ddefnyddio gwasanaethau.
- Mae teuluoedd wedi eu gwasgaru'n fwy a gall hyn arwain at deimladau o unigrwydd ac o fod ar eu pen eu hunain ymhlith pobl o bob oed.
- Er y tynnir sylw at lawer o leoedd yn ein hardal ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru fel rhai sydd â heriau penodol, mae pobl sy'n byw yno yn teimlo'n gadarnhaol iawn am eu cymunedau.
- Rydym ni'n pryderu y gall yr angen am fwy o fathau o dai sy'n addas i'n poblogaeth sy'n newid roi pwysau ar ein hamgylchedd.
- Yn gyffredinol, mae canran y grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn yr Ardal yn is na chyfartaledd Cymru.

Fe wnaethom ni ganfod

## Rydym ni'n falch o bwy ydym ni ac o ble rydym yn dod

- Mae ein gorffennol wedi siapio'r bobl ydyn ni, y llefydd rydyn ni'n byw a'r pethau rydym ni'n hoffi eu gwneud fel chwaraeon a'r celfyddydau.
- Disgrifiwyd pobl fel rhai cyfeillgar a chefnogol ac fel rhai sy'n edrych allan am ei gilydd.
- Mae pobl yn cyd-dynnu'n dda:
  - Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o gytuno bod pobl yn trin ei gilydd gyda pharch.
  - Mae mwy o bobl yn credu bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu ac yn trin ei gilydd â pharch.
  - 'Pawb yn dod at ei gilydd ac yn dysgu am wahanol grefyddau, ieithoedd, diwylliannau a hanes – gallwn ni i gyd ddysgu oddi wrth ein gilydd'.
- Dydy pobl ifanc ddim yn teimlo bod pobl yn gwrando arnyn nhw.

Fe wnaethom ni ganfod

## Mae teimlo'n ddiogel yn ein cymuned yn bwysig i ni

- Mae llawer o bethau'n gweithio i'n helpu i deimlo'n ddiogel ac i atal troseddu rhag digwydd ond mae rhai pobl yn ein cymunedau'n teimlo'n anniogel ar ôl iddi dywyllu neu mewn rhai ardaloedd.
- Y drosedd fwyaf cyffredin a gaiff ei hadrodd yn y rhanbarth yw 'trais yn erbyn y person.'
- Mae data diweddar yn dangos cynnydd mewn troseddau casineb a gafodd eu hadrodd.

Nododd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2018/19:

- Mae dynion rhwng 25 a 34 oed yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol.
- Pobl dros 75 oed sydd lleiaf tebygol o deimlo'n ddiogel, yn enwedig menywod sy'n cerdded neu gartref ar ôl iddi dywyllu.
- Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd llai cefnog yn fwy tebygol o deimlo bod troseddu wedi cynyddu.
- Rhwng Medi 2019 ac Awst 2020 cafwyd mwy o adroddiadau am gam-drin domestig yn RhCT a Phen-y-bont ar Ogwr.

Fe wnaethom ni ganfod

## Gall unigrwydd effeithio ar unrhyw un

- Gall teimlo'n unig gael effaith wael ar ein hiechyd a'n lles.
- Rydym ni'n teimlo bod bod yn ynysig ac yn unig wedi dod yn fwy o broblem yn ystod y cyfnod clo. Fe wnaeth dwywaith cymaint o bobl hunangofnodi iselder ysgafn neu ddifrifol yn ystod y cyfnod clo.
- Gall peidio â bod â llawer o arian i'w wario wneud i rywun deimlo'n unig. 'Mae angen mwy o ganolfannau cymunedol neu fannau cyfarfod i bobl fynd iddynt. Alla i ddim fforddio parhau i brynu coffi'
- Mae cymunedau a sefydliadau lleol wedi gweithio drwy gydol y pandemig i helpu i leihau teimladau o unigrwydd ac o fod wedi ynysu.

Mae'r adroddiad asesu llawn i'w weld yn:
**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf**

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF PUBLIC SERVICES BOARD

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf**
**Phen-y-Bont ar Ogwr**

Pen-y-bont ar Ogwr Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bridgend Public Services Board

*Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)